**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**National Assembly for Wales**
Constitutional and Legislative Affairs Committee

25 Mai 2017

Annwyl

**Llais cryfach i Gymru: ymgysylltu â San Steffan a'r gwledydd datganoledig**

Ysgrifennaf atoch fel Cadeirydd Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Rydym ar hyn o bryd yn cynnal **ymchwiliad** i effeithiolrwydd gweithio rhyng-lywodraethol a rhyng-seneddol.

Rydym wedi rhannu'r gwaith hwn yn ddwy elfen: materion cyfansoddiadol a materion polisi. Nod yr ail elfen yw ystyried:

- Natur y cysylltiadau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, sut y mae'r cysylltiadau hyn yn gweithredu a sut y gellir eu gwella.
- Gwella cyfleoedd i lywodraethau a seneddau ddysgu'n well am bolisïau ar y cyd.
- Arfer gorau o ran cysylltiadau rhyngsefydliadol ar draws y DU y gellid ei ddefnyddio yng nghyd-destun Cymru.
- Natur y cysylltiad rhwng deddfwrfa Cymru a deddfwrfa'r DU a chanfod cyfleoedd i seneddau weithio'n fwy effeithiol â'i gilydd.
- Unrhyw faterion eraill sy'n ymwneud â chysylltiadau rhyngsefydliadol, gan gynnwys y goblygiadau perthnasol sy'n deillio o'r ffaith bod y DU yn gadael yr UE.

Rwyf felly'n ysgrifennu atoch fel sefydliad nad yw wedi ymwneud yn rheolaidd â'r Cynulliad Cenedlaethol, ond sydd wedi ymwneud yn rheolaidd â deddfwrfeydd eraill y DU.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

Byddai gennyf ddiddordeb mewn clywed eich barn ynghylch pam fod hyn yn wir. Yn benodol:

- A oes unrhyw rwystrau i ymgysylltu â'r Cynulliad Cenedlaethol?
- Beth yw eich canfyddiad o'r broses o ymgysylltu â phwyllgorau yng Nghaerdydd o'i chymharu â Llundain, Caeredin neu Belfast?
- Beth yw eich canfyddiad a'ch disgwyliad o weithio rhyng-sefydliadol a chysylltiadau, a'ch barn ar ddysgu gan sefydliadau eraill?

Rwy'n sicr y bydd eich dealltwriaeth yn ddefnyddiol iawn ac rwy'n edrych ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies

**Huw Irranca-Davies**
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.